# Modiwl 9

9 Gorffennaf 2024

# Modiwl 9 Amlinelliad Dros Dro o'r Cwmpas

Bydd y modiwl hwn yn adnabod yr amrediad eang o ymyriadau economaidd a gymerwyd gan lywodraeth ar draws holl genhedloedd y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r pandemig, megis:

i) cymorth i fusnesau, swyddi a'r hunangyflogedig, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth, cynlluniau benthyg, rhyddhad trethi busnes a grantiau;

ii) cyllid ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus perthnasol;

iii) cyllid ychwanegol i'r sector gwirfoddol a chymuned; a

iv) budd-daliadau a thâl salwch i bobl sy'n agored i niwed

Bydd y modiwl hwn yn ystyried sut y cafodd cymorth economaidd ei ddarparu mewn gwirionedd gan Lywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth Leol trwy gynnal archwiliad o rai o'r prif ymyriadau. Trwy wneud hynny, bydd yn ystyried materion gan gynnwys:

1) Sut oedd gwneud penderfyniadau economaidd wedi'i strwythuro a sut yr ymgymerwyd â hyn y gan Lywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r Llywodraeth Leol? I ba raddau oedd cyfnewid agored o wybodaeth, rhagfynegi a chyngor arbenigol economaidd? Yn benodol pwy oedd yn darparu cyngor economaidd a sut oedd y cyngor hwnnw'n cael ei dderbyn, ei ystyried a'i rannu o fewn Llywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth Leol. Pa mor effeithiol oedd y strwythurau a'r systemau ar gyfer gwneud penderfyniadau economaidd ar draws y Llywodraethau hynny wedi'u cydgyfeirio ac â pha effaith? Pa mor eang oedd yr ymgynghori ynghylch yr amrediad o fesurau economaidd a ystyriwyd neu a weithredwyd?

2) Sut oedd yr ymyriadau a gafodd eu gwneud gan Lywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r Llywodraeth Leol yn cael eu cyllido? Yn benodol, sut oedd y cyllid a ddyrannwyd yn cael ei adnabod neu ei gynhyrchu?

3) Trwy ba feini prawf ac â pha amcanion polisi y cafodd ymyriadau economaidd unigol eu hadnabod a'u datblygu? Yn benodol sut gafodd amseriad yr ymyriadau ei benderfynu a'i gyfathrebu ar draws Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig? Pa ystyriaeth, os o gwbl, a roddwyd i gydraddoldeb effaith y cymorth economaidd a ddarparwyd rhwng grwpiau penodol gan gynnwys rheini oedd mewn mwy o berygl neu'n fwy agored i niwed fel arall?

4) Sut gafodd mecanweithiau ar gyfer cyflawni eu hadnabod, eu datblygu a'u gweithredu? Pa mor effeithiol a llwyddiannus oedd y fath fecanweithiau? Sut gafodd llwyddiant ei ddiffinio, ei werthuso a / neu ei fonitro? Sut y sicrhawyd bod cymorth wedi cael ei dargedu'n briodol ac yn effeithiol? Sut, os o gwbl, gafodd cydraddolodeb effaith y cymorth a ddarparwyd ei fonitro ac a gymerwyd camau i leihau unrhyw anghydraddoldebau?

5) Sut gafodd penderfyniadau eu cymryd i ddiweddu'r cymorth a ddarparwyd a pha feini prawf benderfynodd ar amseriad terfynu'r cymorth?

6) Pa gamau a gymerwyd i ddiogelu arian cyhoeddus a rheoli risg ariannol? Pa gamau a gymerwyd i leihau neu atal hawliadau twyllodrus a chyfeiliornus? Oedd y mesurau hynny yn ddigonol ac yn briodol?

7) Oedd unrhyw amrywiaeth yn y cymorth a gynigiwyd ar draws y Deyrnas Unedig? Os felly, sut a pham ddaeth yr amrywiaeth honno i fod ac a wnaeth unrhyw wyriad a gafodd ei adnabod o ymagwedd cymorth ledled y DU, leihau neu gynyddu effeithiolrwydd y cymorth a gynigiwyd?

© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at [add web address]

Any enquiries regarding this publication should be sent to us [at add contact details].